FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM



Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007

RHAGAIR

Mae Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam wedi parhau i gyfranogi mewn materion cefn gwlad a hawliau tramwy ar draws y Fwrdeistref Sirol ac mae wedi ceisio dod i ddeall y croestyniadau a allai godi oherwydd bod aelodau o'r cyhoedd yn defnyddio'r cefn gwlad a'r gymuned amaethyddol yn ennill ei bywoliaeth o'r tir.

Bu'r Fforwm yn brysur iawn yn rhoi cyngor ar y Cynllun 10 Mlynedd i Wella Hawliau Tramwy drwy helpu i lunio datblygiad y cynllun.

Mae'r Cadeirydd wedi gweithio'n galed i hyrwyddo gwaith y Fforwm a sicrhau bod ei sylwadau yn cael sylw. Diolch i aelodau'r Fforwm am eu gwaith ar hyd y flwyddyn, yn enwedig y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.
Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Ieuan Lewis yw fy enw ac rwyf yn amaethu gwartheg stôr, defaid, grawnfwydydd a gwreiddlysiau i gyfeiriad de'r sir. Rwyf newydd gwblhau fy mhedwaredd flwyddyn fel Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol, ar ôl cael gorchymyn i barhau fel Cadeirydd y Fforwm newydd.

Mae'r Fforwm yn parhau i wneud cynnydd cyson. Mae wedi gwneud cyfraniad pwysig tuag at y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac rydym yn edrych 'mlaen at ei weld yn cael ei gyhoeddi ar y dyddiad penodol ym mis Tachwedd, neu cyn hynny, efallai.

Mae'r Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) wedi profi ei fod yn barod i herio perfformiad anfoddhaol ac mae ei aelodau wedi dangos eu bod yn barod i dorchi eu llewys pan fydd angen. Yn genedlaethol symudodd y pwyslais oddi wrth gael Mynediad i'r Tir, gan mai Cael Mynediad i'r Arfordir yw'r prif nod bellach.

Er bod Wrecsam yn dirgloëdig, mae aelodau'r Fforwm wedi parhau i gadw golwg ar y sefyllfa er mwyn sicrhau bod trigolion Sir Wrecsam yn gallu manteisio i'r eithaf ar yr arfordir. Mae rhai o aelodau'r Fforwm wedi achub ar y cyfle i gyfranogi ar lefel genedlaethol ac maent yn parhau i sicrhau bod Wrecsam yn parhau yng nghanol gweithgareddau'r fforwm cenedlaethol.

Rwyf yn meddwl iddi fod yn flwyddyn lwyddiannus. Rwyf yn ddiolchgar am gyfraniad fy nghydweithwyr ar y Fforwm yn sicrhau hynny. Rwyf yn edrych 'mlaen at ddatblygu'r cynnydd a wnaethom hyd yn hyn. Fodd bynnag, rwyf yn hyderus y gall aelodau'r Fforwm ddefnyddio eu gwybodaeth, eu profiad a'u harbenigedd i sicrhau bod y Fforwm yn bodloni ei ddyletswydd statudol fel corff ymgynghorol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

CYNLLUN GWAITH AR GYFER Y FLWYDDYN NESAF

Yn ystod y flwyddyn nesaf disgwylir y bydd y FfMLl yn archwilio, ystyried a gwneud argymhellion i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn y meysydd canlynol:
Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)
Mapiau Diffiniol
Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol
Mapio Rhyngweithiol
Llwybrau a Gollwyd
Gwaith Tirfesur
Ceisiadau Cynllunio
Materion Cŵn
Cyllidebau ac Adnoddau
Strategaeth Gyfathrebu

CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam ym mis Tachwedd 2002. Mae'r aelodau yn gwasanaethu ar y Fforwm am dair blynedd, gellir ymaelodi â'r Fforwm drwy wneud cais a mynd drwy broses ddethol. 2005 oedd y tro diwethaf i hynny ddigwydd a dechreuodd y Fforwm newydd ar ei waith ym mis Tachwedd 2005.

Yn ôl Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, mae'n rhaid i awdurdodau lleol greu Fforymau Mynediad Lleol. Cynghori'r awdurdod, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i'r tir yn Sir Wrecsam i ddibenion gweithgareddau awyr agored a mwynhau'r ardal, yw diben y Fforwm. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo dalu sylw i anghenion rheoli tir a harddwch naturiol yr ardal wrth wneud hynny. Mae holl gyfarfodydd y Fforwm yn agored i'r cyhoedd.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi crynodeb byr o waith y fforwm, cyhoeddir cofnodion y cyfarfodydd ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam: www.wrexham.gov.uk/laf a gellir eu gweld yn Neuadd y Dref yn ystod oriau swyddfa.
Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y FfMLl yr argymhellion a ganlyn i'r Awdurdod Lleol.

Argymhelliad	**Ymateb yr Awdurdod**
Anfonwyd llythyr at y Prif Weithredydd a chopi at y Prif Swyddog Cynllunio yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu nodiadau cyfarwyddyd cynllunio rhif 1-6 fel polisi. *(Gweler cofnodion 05/05/06)*	Roedd y Prif Swyddog Cynllunio yn teimlo bod digon o ddulliau diogelu wedi'u cynnwys yn y CDU. Felly nid oedd yn teimlo y gallai argymell mabwysiadu'r canllawiau fel polisi.

Argymhelliad	Ymateb yr Awdurdod
Anfonwyd llythyr at y Prif Weithredydd yn nodi y dylid datrys sefyllfa'r *DMMOs* ar frys. *(Cofnodion 05/05/06)* Anfonwyd llythyr at Brif Swyddog yr Amgylchedd i ofyn pa gamau sydd yn cael eu cymryd i wella'r gwasanaeth. *(Cofnodion 07/07/06)*	Derbyniwyd llythyr oddi wrth Brif Swyddog yr Amgylchedd yn gwrthod argymhelliad y Fforwm gan fod yr adnoddau yn brin. *(Cofnodion 07/07/06)*
Anfonwyd llythyr at yr awdurdod ynghylch materion parcio mewn cilfachau, a'r cyfleusterau parcio annigonol yn Nyffryn Ceiriog yn benodol.	Mae Alan Evans o'r Adran Briffyrdd yn mynd i gael golwg ar yr ardal dan sylw ac yna ymateb i'r Fforwm maes o law.
Argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu Mapio Rhyngweithiol i wella'r wybodaeth a gynigir i'r cyhoedd. *(Cofnodion 10/11/06*)	Ymateb cadarnhaol, yn gofyn a yw'r lefel gyfredol o fapio rhyngweithiol yn ddigonol. *(Cofnodion 26/01/07)*

Y FLWYDDYN O DAN SYLW

TIR MYNEDIAD

Yn ystod y flwyddyn, ni ofynnwyd i'r Fforwm Mynediad Lleol ddarparu cyngor penodol ar fynediad i dir agored gan na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am wahardd na chau y tu hwnt i'r cyfyngiad statudol penodol.

Cafodd y Fforwm adroddiad oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ar y gweithgareddau o fewn ffiniau'r Sir.

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2005/06

Cymeradwyodd y FfMLl yr Adroddiad Blynyddol yn y cyfarfod ar 05/05/06.

CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

Cafodd cynnydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ei fonitro yn ofalus gan y FfMLl trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i gyflawni'r gwaith asesu, ymgynghori a llunio'r adroddiad drafft. Cyfrannodd y FfMLl at bob agwedd o'r gwaith.

Y llynedd roedd y FfMLl yn pryderu efallai na ellid cyflawni'r gwaith a chyhoeddi'r adroddiad o fewn y cyfnod a bennwyd gan statud; fodd bynnag, gwnaed cynnydd ardderchog ac mae'r FfMLl yn dymuno diolch i Martin Howorth a'i staff am eu hymdrechion yn sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar amser.

(Gweler cofnodion 05/05/06, 07/07/06, 08/09/06, 10/11/06 a 26/01/07)

CEISIADAU CYNLLUNIO

Fel y FfMLl yn genedlaethol, mae FfMLl Wrecsam yn dehongli ei ddyletswydd yn eang. O ganlyniad i nifer o ddatblygiadau newydd a phwysig, mae'n gyfnod o adfywiad ar Wrecsam ar hyn o bryd. Cynghorodd y FfMLl Adran Gynllunio'r Cyngor i fabwysiadu'r hyn sydd yn cael ei ystyried yn arfer gorau yn nodiadau Cyfarwyddyd Ymarferol Hawliau Tramwy rhif 1 i 6 fel polisi ar gyfer ei swyddogion.

At hynny, ystyriodd y FfMLl a ddylid ffurfio Is-bwyllgor i adolygu'r ceisiadau cynllunio a gweithio o fewn yr amserlenni cynllunio. Penderfynwyd y byddai gwirfoddolwr yn edrych ar y rhestr o geisiadau cynllunio wythnosol ac adrodd am unrhyw ddatblygiad yr oedd yn teimlo a oedd yn bwysig.
(Gweler cofnodion 05/05/06, 10/11/06)

CILFACHAU PARCIO

Mynegwyd pryder ynghylch prinder y cilfachau parcio yng nghefn gwlad y sir. Roedd hynny yn arbennig o wir am ardal Dyffryn Ceiriog lle yr adroddwyd bod pobl sydd yn defnyddio ffyrdd cyhoeddus yn parcio mewn mannau pasio ac yn peri problemau i'r gymuned leol. Mae hyn yn broblem gan fod ardal Glyn Ceiriog yn cael ei hyrwyddo'n helaeth, ond does dim digon o fannau parcio na chludiant cyhoeddus ar gyfer yr ardal. Ysgrifennodd y FfMLl at yr Awdurdod i fynegi ei bryder.

Lluniodd Partneriaeth Gogledd Gororau Cymru Strategaeth Ddatblygu Wledig ddrafft a anfonwyd at Gynulliad Cymru - nid oes unrhyw ddatblygiadau pellach ar hyn o bryd, ond fe allai fod yn ffynhonnell gyllid bosibl. (*Gweler cofnodion 07/07/06, 08/09/06, 10/11/06 a 26/01/07)*

GORCHMYNION ADDASU MAPIAU DIFFINIOL

Mae'r maes hwn o ddyletswydd statudol yr awdurdod yn peri pryder mawr i'r FfMLl. Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2005, rhoddwyd rhestr o'r gorchmynion nas penderfynwyd arnynt i'r Fforwm Mynediad Lleol. Mae nifer yr eitemau nas penderfynwyd arnynt wedi cynyddu ac mae rhai ohonynt yn bymtheg mlwydd oed. Yn ystod y cyfarfod ar 5 Mai 2006, adroddwyd bod:

26 o geisiadau wedi'u dwyn ymlaen
5 o geisiadau wedi'u derbyn
31 o geisiadau heb eu penderfynu

rhwng 1 Ebrill 2005 a diwedd Mawrth 2006.

Adroddwyd bod **0** o geisiadau wedi'u penderfynu am yr ail flwyddyn yn olynol.

Mynegodd y Fforwm bryder mawr ynghylch y cynnydd yn y rhestr o Addasiadau i'r Mapiau Diffiniol nas penderfynwyd arnynt ac roedd am wybod pam nad oedd yr uwch reolwyr wedi gweithredu i gynyddu'r adnoddau i ddatrys y mater. Gan fod y Fforwm yn pryderu cymaint ynghylch y mater, mae am adolygu'r cynnydd yn flynyddol.
(Gweler cofnodion 05/05/06 a 10/06/06)

ARIANNU

Roedd aelodau'r FfMLl o'r farn y dylent gael gweld y cynlluniau ariannu er mwyn iddynt wybod faint o arian oedd yn cael ei glustnodi ar gyfer HT, costau staff a gwaith tir. Fel pwyllgor statudol o'r awdurdod, teimlid y dylai fod gan y fforwm hawl i fynegi ei farn ynghylch dyrannu cyllid. Nid oedd y Prif Weithredydd nac Arweinydd y Cyngor yn mynychu unrhyw gyfarfodydd FfMLl, ond roedd y Cynghorydd Mark Pritchard yn eu mynychu ac yn gwrando ar bryderon y FfMLl.
(Gweler cofnodion 07/07/06, 10/11/06)

STAD WYNNSTAY

Ymwelodd yr aelodau â'r stad fore 7 Gorffennaf 2006.
Diolchodd Sue Gittins, ar ran aelodau'r Fforwm, i'r ysgrifennydd am drefnu'r ymweliad. Er bod y FfMLl yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a gymerodd Capten Bell i'w tywys o gwmpas y stad, mae'n annhebygol iawn y bydd y stad yn newid y polisi cyfredol o ran mynediad.

GOSOD GIATIAU AR RAI PRIFFYRDD ER MWYN ATAL TROSEDDAU AC YMDDYGIAD GWRTH GYMDEITHASOL – PAPUR YMGYNGHOROL

Rhoddodd Pete Bland gyflwyniad i'r FfMLl ar y pwnc hwn. Mynegwyd rhai pryderon a manteisiodd y FfMLl ar y cyfle i ymateb i'r ddogfen ymgynghorol oddi wrth y Cynulliad.
(Gweler cofnodion 07/07/06)

LLWYBRAU A GOLLWYD

Gofynnodd y fforwm am y cynnydd ar Brosiect Llwybrau a Gollwyd ac fe'i siomwyd o glywed am y diffyg cynnydd.
(Gweler cofnodion 08/04/05)

CŴN YNG NGHEFN GWLAD

Mae'r mater hwn o gryn bryder i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol. Cafodd ei godi yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'r FfMLl yn parhau yn ei ymdrechion i ddod o hyd i ffyrdd sydd o gymorth i dirfeddianwyr heb rwystro perchnogion cŵn sydd yn ystyriol rhag defnyddio'r rhwydwaith Hawliau Tramwy. Mae'r FfMLl wedi archwilio cyfreithlondeb arwyddion ac wedi trafod yr arwyddion mwyaf effeithiol. Mae wedi annog aelodau a Chynghorau Cymunedol i wneud defnydd o Adran 27 o Ddeddf Trafnidiaeth y Ffordd 1988 a Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.
(Gweler cofnodion 05/05/06, 07/07/06, 08/09/06, 10/11/06 a 26/01/07)

YSWIRIANT
Mae'r FfMLl wedi bod yn ymchwilio i'r rhwystrau yswiriant sydd yn atal gwirfoddolwyr neu grwpiau rhag ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ar y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae gan rai sefydliadau mawr fel Cymdeithas y Cerddwyr yswiriant eu hunain, er, gall cost o'r fath lesteirio unigolion a grwpiau bychain. Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio gwirfoddolwyr a phobl â gorchmynion cymunedol o dan oruchwyliaeth yn unol â rheolau polisïau'r awdurdod.

Fodd bynnag, ymchwiliodd y FfMLl i'r arferion o gwmpas y wlad, ac yn gyffredinol ymddengys bod yn rhaid i weithwyr gwirfoddol gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus oni bai eu bod o dan oruchwyliaeth gweithwyr y Cyngor. Cytunodd y Fforwm bod y mater hwn wedi'i archwilio i'w ganlyniad naturiol.
(Gweler cofnodion 07/07/06, 10/11/06 a 26/01/07)

ADRODDIAD CEIDWAID
Ym mhob cyfarfod, mae'r FfMLl yn cael adroddiad sydd yn amlinellu gweithgareddau'r ceidwaid. Bu'r ceidwaid yn arbennig o brysur yn arwain teithiau cerdded, yn gosod arwyddion ac yn ymdrin â materion llwybrau a blannwyd.
(Gweler cofnodion 05/05/06, 07/07/06, 08/09/06, 10/11/06 a 26/01/07)

HYFFORDDI AELODAU NEWYDD
Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd a benodwyd i'r FfMLl. Gofynnodd y FfMLl i'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol a'r awdurdodau cyfagos am arweiniad ar arfer gorau. Cynhyrchodd Mr J Marchant rest o gwestiynau cyffredin. Roedd hwn yn cael ei ystyried yn addas, heb fawr o newidiadau, ar gyfer sicrhau bod unrhyw aelod newydd yn deall y termau a'r talfyriadau a ddefnyddir mewn cyfarfodydd FfMLl. Diolchodd FfMLl i Mr Marchant am ei ymdrechion.

CYDBWYSEDD Y FFORWM
Mae'r FfMLl wedi ystyried ei aelodaeth ar nifer o achlysuron. Teimlir nad yw beicwyr yn cael eu cynrychioli'n dda iawn. Mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch nad oes neb yn cynrychioli cadwraethwyr, na phobl ifanc y sir ychwaith. Mae'r awdurdod sydd yn penodi'r Fforwm yn fodlon gyda chydbwysedd y Fforwm ac mae'r FfMLl wedi cymryd camau i sicrhau bod sylwadau pobl ifanc yn cael eu hystyried.
(Gweler cofnodion 07/07/06, 10/11/06)

MAPIAU RHYNGWEITHIOL
Cododd y FfMLl fater Mapiau Rhyngweithiol. Hysbyswyd yr aelodau am wefannau awdurdodau lleol eraill sydd yn cynnwys mapiau rhyngweithiol a'r manteision o'u cael. Cytunodd y Fforwm y buasai gwneud gwell defnydd o fapiau rhyngweithiol yn fanteisiol i'r cyhoedd.

(Gweler cofnodion 10/11/06)

GWAITH TIRFESUR

Cododd Gerald Moss fater tirfesur gan wirfoddolwyr ar rwydweithiau hawliau tramwy cyhoeddus. Roedd Gerald Moss wedi gwneud gwaith tirfesur sylfaenol yn ei ardal leol. Bu'r gwaith o ddefnydd i'r Adran Hawliau Tramwy, yn enwedig o ystyried ei fod o help i roi sicrwydd o ran diogelwch pontydd, sydd yn ei dro yn hanfodol i sicrhau bod yr awdurdod yn cael yswiriant. Mae aelodau eraill o'r FfMLl yn gwirfoddoli i wneud gwaith tirfesur mewn cymunedau.
(Gweler cofnodion 10/11/06)